Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru
Welsh Graduate School for the Social Sciences

# Cystadleuaeth Effaith YGGCC: Canllawiau i Ymgeiswyr 2026–2027

## Contents


1. Trosolwg ..... 2
   1.1 Nod y gystadleuaeth ..... 2
   1.2 Diffinio ‘effaith’ ..... 2
   1.3 Llwybrau tuag at effaith ..... 3
   1.4 Mesur effaith ..... 4
2. Y broses ymgeisio ..... 5
   2.1 Cymhwystra ..... 5
   2.2 Y broses asesu ..... 6
   2.3 Meini prawf asesu ..... 7
   2.4 Cyfnod ymgeisio ..... 7
3. Cyllid dilynol ..... 8
   3.1 Gwobrau i’r ymgeiswyr ..... 8
   3.2 Defnyddio gwobrau ariannol fel cyllid dilynol ..... 8
4. Cwestiynau ymgeisio (fel y gellir cyfeirio atynt) ..... 8
   4.1 Cwestiynau ymgeisio ar gyfer ‘Effaith a Gynlluniwyd’ ..... 9
   4.2 Cwestiynau ymgeisio ar gyfer ‘Effaith a Gyflawnwyd’ ..... 10

# 1. Trosolwg

## 1.1 Nod y gystadleuaeth

Nod Cystadleuaeth Effaith YGGCC yw annog myfyrwyr i gynllunio a chyflawni effaith ac ymgysylltiad ystyrlon ar draws cymuned myfyrwyr YGGCC a'r cyhoedd ehangach trwy eu gweithgarwch ymchwil.

Mae'r gystadleuaeth yn rhoi cyfle i fyfyrwyr YGGCC ar draws y rhwydwaith wneud y canlynol:

• Myfyrio ar sut y mae eu hymchwil, neu sut y bydd eu hymchwil yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon yn eu maes ymchwil eu hunain a thu hwnt.

• Ysbrydoli effaith bellach, drwy gyflwyno cyllid dilynol i'r prosiectau buddugol.

## 1.2 Diffinio 'effaith'

Mae YGGCC yn diffinio effaith drwy ddefnyddio termau'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Dylai ymgeiswyr ddangos effaith glir â thystiolaeth sy'n cyd-fynd â diffiniad y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol:

- Rhaid i'r effaith fod yn gyfraniad dangosadwy y mae ymchwil ragorol yn ei wneud i gymdeithas a'r economi, gan gynnwys buddion i unigolion, sefydliadau, neu genhedloedd.

- Gall yr effaith fod yn academaidd, economaidd, neu'n gymdeithasol, ar yr amod bod tystiolaeth glir i'w chefnogi.

Dylai'r ceisiadau arddangos o leiaf un o'r effeithiau a gydnabyddir gan y cyngor:

**Effaith gyfrannol** – dylanwadu ar bolisi, ymarfer, gwasanaethau, deddfwriaeth, neu ymddygiad.

**Effaith gysyniadol** – mynegi dadleuon mewn ffordd wahanol, gwella dealltwriaeth o faterion.

**Meithrin galluedd** – datblygu sgiliau technegol neu bersonol ymhlith cyfranogwyr, defnyddwyr, neu gymunedau.

At ddibenion Cystadleuaeth Effaith ac Ymgysylltu YGGCC, gall 'effaith' gynnwys y canlynol:

• **Newid neu fudd i gymdeithas a'r economi, neu rywbeth sy'n cael effaith arnynt.** Mae hyn yn cynnwys newid cadarnhaol i weithgarwch, ymwybyddiaeth, ymddygiad, capasiti, cyfle, perfformiad, polisi, arferion, proses neu ddealltwriaeth buddiolwyr allweddol.

• **Y cyfraniad academaidd cadarnhaol y gall ymchwil ragorol ei wneud i ddeall a hyrwyddo dull neu ddamcaniaeth wyddonol ar draws disgyblaethau.** Er enghraifft, gallai ymgeiswyr gyflwyno cais yn seiliedig ar ymchwil gradd doethur, Ymweliad Sefydliadol Tramor, neu brosiect arbennig megis cydweithrediad traws-sefydliadol.

Gall y buddiolwyr fod:

• Yn gynulleidfa nad yw'n academaidd, cymuned, etholaeth, sefydliad neu unigolion.

• Yn gynulleidfa academaidd, cymuned, neu gonsortiwm.

• Wedi eu lleoli yn lleol, yn rhanbarthol, neu'n rhyngwladol. Er bod yn rhaid i fyfyrwyr YGGCC fod wedi eu cofrestru mewn Prifysgol YGGCC i fod yn gymwys ar gyfer y gystadleuaeth hon, gall eu heffaith fod yn unrhyw le yn y DU neu dramor.


## 1.3 Llwybrau tuag at effaith

Mae YGGCC yn disgwyl i ymgeiswyr y gystadleuaeth hon fod ar gamau penodol o'u llwybr tuag at effaith, ac mae'r broses wedi ei chynllunio i roi cyfle i ymgeiswyr fyfyrio ar yr hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni, yr hyn y maent eisoes wedi ei gyflawni, a'r hyn a allai ddod nesaf gydag ychydig o gyllid dilynol. I fyfyrio ar ble yr ydych chi ar eich taith tuag at effaith, a chymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, gallwch ddechrau trwy nodi'r canlynol:

1. Yr allbynnau sydd wedi eu gwireddu (neu yr ydych chi'n bwriadu eu gwireddu yn ystod blynyddoedd nesaf eich doethuriaeth).

2. Y canlyniadau sydd wedi eu cyflawni (neu yr ydych chi'n bwriadu eu gwireddu yn ystod blynyddoedd nesaf eich doethuriaeth).

3. Yr effaith sydd eisoes wedi ei gwireddu (neu sydd â'r potensial i gael ei gwireddu yn y dyfodol). Yn ogystal â hyn, os nad ydych wedi gwneud un eisoes, efallai yr hoffech lunio model rhesymeg ar gyfer eich prosiect. Er enghraifft, gall y model yn Ffigur 1, a gynlluniwyd yn wreiddiol fel offeryn cynllunio, fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwerthuso hefyd.




Ffigur 1: Diagram llwybrau tuag at effaith. Model rhesymeg wedi ei addasu gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Cydlynu Ymgysylltiadau â'r Cyhoedd: https://www.publicengagement.ac.uk/. Sylwer: Y prif gafeat wrth ddefnyddio model rhesymeg i gynllunio / gwerthuso effaith yw y gall awgrymu bod y broses yn un unionsyth. Mae hefyd yn werth ystyried, mewn prosiect sy'n wirioneddol gydweithredol, y gall ymgysylltiad â rhanddeiliaid (y bobl yr ydych yn gobeithio a fydd yn elwa, neu'r rhai yr ydych am eu perswadio, er enghraifft) fod wedi ei wreiddio drwyddo draw, a gall newid siâp y prosiect.

## 1.4 Mesur effaith


Yn ddelfrydol, byddai ceisiadau yn cynnwys cyfuniad o wahanol fathau o dystiolaeth i ddangos effeithiau cyflawn a pharhaus y prosiect. Gallwch gynnwys tystiolaeth o effaith yr oeddech wedi ei chynllunio, a thystiolaeth o effeithiau annisgwyl a gododd wrth i chi fynd trwy'r prosiect, e.e. adborth cadarnhaol gan randdeiliaid nad oeddech wedi bwriadu ymgysylltu â nhw yn wreiddiol.

Mae YGGCC yn derbyn y dystiolaeth ganlynol fel rhan o'r Gystadleuaeth Effaith:

- Tystiolaeth feintiol
- Tystiolaeth ansoddol
- Gwybodaeth am effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- Gwybodaeth am effeithiau sydd wedi eu cyflawni, neu sydd heb eu gwireddu eto

I gael cyngor ar fesurau meintiol ar gyfer effaith, byddem yn argymell Canllawiau RAND Europe ar gyfer safoni dangosyddion meintiol o effaith o fewn astudiaethau achos y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (2018). Wedi ei gomisiynu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o rai mesurau safonol ar gyfer meintioli effaith, yn seiliedig ar gyflwyniadau astudiaethau achos y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn 2014.

Ceir graffeg sy'n crynhoi rhai o'u prif awgrymiadau yn Ffigur 2 isod.




Ffigur 2: Canllawiau ar gyfer dangosyddion meintiol o effaith. Sarah Parks, Becky Ioppolo, Martin Stepanek a Salil Gunashekar, Canllawiau ar gyfer safoni dangosyddion meintiol o effaith o fewn astudiaethau achos y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, Caergrawnt: RAND Ewrop, 2018. Ceir rhagor o wybodaeth ddefnyddiol am gynllunio a mesur eich effaith ym Mhecyn Cymorth Effaith y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer y Gwyddorau Economaidd a Chymdeithasol yma: Pecyn cymorth effaith ar gyfer y gwyddorau economaidd a chymdeithasol – Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI)

## 2. Y broses ymgeisio

### 2.1 Cymhwystra

Mae Cystadleuaeth Effaith YGGCC yn agored i bob myfyriwr a ariennir gan YGGCC. Deellir, yn dibynnu ar ddatblygiad eich doethuriaeth, y byddwch ar wahanol gamau o'ch taith tuag at greu effaith. Er mwyn rhoi chwarae teg i hyn, mae dau gategori i Gystadleuaeth Effaith YGGCC:

*1. Effaith a Gynlluniwyd:* Gall unrhyw fyfyriwr ym mlwyddyn gyntaf ei radd doethur (neu'r hyn sy'n gyfwerth â rhan-amser) wneud cais. Noder: Nid yw myfyrwyr sydd yn eu hail neu drydedd flwyddyn yn gymwys i ymgeisio yn y categori Effaith Gynlluniedig.

*2. Effaith a Gyflawnwyd*: Gall unrhyw fyfyriwr y tu allan i'w flwyddyn gyntaf (neu'r hyn sy'n gyfwerth â rhan-amser) ond sydd o fewn ei amserlen ariannu uchaf (yn ôl hyd ei ddyfarniad) wneud cais.

## 2.2 Y broses asesu

Mae dwy rownd asesu ar gyfer Cystadleuaeth Effaith YGGCC. Mae angen i ymgeiswyr ymrwymo i gymryd rhan yn nau gam y gystadleuaeth pan fyddant yn cwblhau'r ffurflen gais gychwynnol.

*Y rownd gyntaf: Adolygiad gan banel*

• Ymgeiswyr yn cyflwyno cais drwy YGGCC. Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn **dydd Gwener 4 Medi 2026.** Mae'r cwestiynau a fydd yn cael eu gofyn i'w gweld yn Adran 4.

• Bydd y ceisiadau yn cael eu hadolygu gan banel sy'n cynnwys arweinwyr effaith ac academyddion sydd newydd ddechrau eu gyrfa ac sy'n arwain prosiectau effaith arloesol o fewn rhwydwaith academaidd YGGCC.

• Bydd hyd at bedwar ymgeisydd yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer y ddau gategori, 'Effaith a Gynlluniwyd' neu 'Effaith a Gyflawnwyd'.

*Yr ail rownd: Pleidlais gan gyfoedion*

Bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn y rownd gyntaf yn symud ymlaen i'r ail rownd.

Yn yr ail rownd, gwahoddir ymgeiswyr i lunio poster i gyflwyno eu cais, a ddylai fod wedi ei anelu at gynulleidfa academaidd gyffredinol. Bydd adnoddau ac arweiniad yn cael eu darparu i ymgeiswyr i'w cynorthwyo i lunio poster effeithiol. Bydd y posteri yn cael eu harddangos mewn arddangosfa ar-lein, ac yn cael eu rhoi i bleidlais ar-lein yn ystod mis Hydref 2026. Bydd yr enillydd ym mhob categori yn cael ei bennu yn ôl nifer y pleidleisiau sy'n dod i law.

Bydd enwau'r enillwyr ym mhob categori yn cael eu cyhoeddi yn ystod digwyddiad sefydlu myfyrwyr 2026 ym Mhrifysgol Caerdydd. Bydd pob ymgeisydd sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael ei wahodd i fod yn bresennol, ac i ddod i arddangos copi caled o'i boster a thrafod ei waith â gwesteion eraill (costau argraffu a threuliau yn cael eu darparu gan YGGCC).

## 2.3 Meini prawf asesu

Mae'r tabl isod yn manylu ar y meini prawf asesu penodol ar gyfer pob categori.

The table below details the specific assessment criteria for each category.

| | CATEGORY 1<br>Planned Impact | CATEGORY 2<br>Achieved Impact |
|---|---|---|
| Focus on | ✓ Planned and expected impact that is intended to develop in the next years of the PhD | ✓ Achieved and ongoing impact |
| Scale and significance | ✓ What outputs are planned and what are the likely benefits for different stakeholders?<br>✓ Are these outputs feasible given current plans? Would they be supported by follow-on funding? | ✓ What were the outputs of the project, and how far-reaching are the benefits for different stakeholders?<br>✓ What are the opportunities to expand the existing benefits for key stakeholders through the follow-on funding? |
| Relationship between researcher and impact | ✓ How clear are the potential links between the research planned or underway and the stated potential impact? | ✓ How clear are the links between the underpinning research and the impact?<br>✓ What opportunities are there for future research and impact as a result of this work? |
| Clarity and communication | ✓ How clearly are the planned outputs, outcomes and impacts of the project articulated?<br>✓ What consideration has been given to the evidence that will be needed to justify and monitor impact? | ✓ How clearly are the outputs, outcomes and impacts of the project articulated?<br>✓ How effectively is qualitative and/or quantitative evidence used to explain the outputs, outcomes and impacts of the project? |

## 2.4 Cyfnod ymgeisio

| | |
|---|---|
| **07/08/2026** | Lansio'r gystadleuaeth |
| **07/09/2026** | **Dyddiad cau Cam 1** (ffurflen gais) |
| **17/09/2026** | Hysbysu ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, a'u gwahodd i greu poster |
| **08/10/2026** | **Dyddiad cau Cam 2** (posteri) |
| **12/10/2026** | Pleidlais ar-lein yn agor |
| **23/10/2026** | Cyhoeddi'r enillwyr yn nigwyddiad sefydlu YGGCC ym Mhrifysgol Caerdydd |

# 3. Cyllid dilynol

## 3.1 Gwobrau i'r ymgeiswyr

Nod y gystadleuaeth hon yw ysbrydoli effaith yn y dyfodol a helpu myfyrwyr ymhellach ar eu llwybr tuag at effaith trwy ddarparu cyllid dilynol.  Mae cyfanswm o £1,000 ar gael i enillwyr y Gystadleuaeth Effaith, wedi ei rannu ar draws y ddau gategori. Bydd enillwyr y categorïau 'Effaith a Gynlluniwyd' ac 'Effaith a Gyflawnwyd' yn ennill £500 yr un, a gyflwynir yn y ffyrdd canlynol.

- Ar gyfer y categori 'Effaith a Gynlluniwyd', bydd y wobr yn cael ei chredydu i Grant Ymchwil, Hyfforddiant a Chymorth yr enillydd, a bydd yn gymwys i'w gwario er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r effaith a gynlluniwyd.

- Ar gyfer y categori 'Effaith a Gyflawnwyd', bydd yr enillydd yn cael gwobr ariannol fel cyllid 'dilynol' i gynorthwyo gweithgarwch yn y dyfodol.

## 3.2 Defnyddio gwobrau ariannol fel cyllid dilynol

Bydd y wobr ariannol yn cael ei thalu gan YGGCC i'r ymchwilwyr buddugol yn dilyn y gystadleuaeth. Gellir gwario'r arian yn ôl disgresiwn yr enillydd; fodd bynnag, awgrymir ei ddefnyddio fel a ganlyn:

• Lledaenu yr effaith ymhellach yn seiliedig ar y prosiect a gafodd ei gynnal.

• Prosiect dilynol sy'n adeiladu ar ganfyddiadau ac effaith y prosiect gwreiddiol, er mwyn datblygu manteision clir i randdeiliaid.

• Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â datblygu llwybr tuag at effaith yr ymchwilydd ymhellach

Gofynnir i bob enillydd rannu unrhyw waith effaith pellach a gyflawnwyd yn dilyn dyfarnu'r wobr hon trwy lunio adroddiad byr a chreu fideo er mwyn hyrwyddo YGGCC.

# 4. Cwestiynau ymgeisio (fel y gellir cyfeirio atynt)

Mae'r cwestiynau hyn at ddibenion rhannu gwybodaeth yn unig: i wneud cais am Gystadleuaeth Effaith YGGCC, cwblhewch y ffurflen gais ar gyfer y categori perthnasol.  Bydd yn well gan rai darpar ymgeiswyr ddrafftio eu cais y tu allan i'r system ar-lein, felly mae'r cwestiynau wedi eu cynnwys isod fel y gellir cyfeirio atynt.

## 4.1 Cwestiynau ymgeisio ar gyfer ‘Effaith a Gynlluniwyd’

| |
|---|
| **Ysgrifennwch grynodeb byr o’r effaith a’r ymgysylltiad yr ydych chi’n bwriadu eu datblygu yn ystod blynyddoedd nesaf eich doethuriaeth.**<br><br>*Ystyriwch y diffiniad o effaith yng Nghanllawiau’r Gystadleuaeth Effaith*<br>hyd at 100 o eiriau |

| |
|---|
| **Ysgrifennwch ddisgrifiad o’ch ymchwil.**<br><br>*Dylai’r disgrifiad hwn amlinellu beth yw pwnc eich ymchwil, a sut y mae eich ymchwil yn sail i’r effaith yr ydych chi wedi ei datblygu.*<br>hyd at 500 o eiriau |

| |
|---|
| **Ysgrifennwch ddisgrifiad manylach o’ch effaith a’ch ymgysylltiad arfaethedig.**<br><br>*Mae creu effaith yn daith, ac rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr ar wahanol gamau o’r daith honno. Ystyriwch eich llwybr tuag at effaith yma, a sut y gallwch fynegi eich effeithiau posibl ar y cam hwn. Ceir rhagor o ganllawiau yng Nghanllawiau’r Gystadleuaeth Effaith ac Ymgysylltu. Os yw’n berthnasol, gallwch ddefnyddio hyd at bum ffynhonnell i gefnogi’r datganiad hwn, a dylid cyfeirio atynt fel rhan o’r cyfrif geiriau.*<br>hyd at 750 o eiriau |

| |
|---|
| **Sut fyddech chi’n defnyddio’r wobr ariannol i ddatblygu effaith eich ymchwil ymhellach?**<br><br>*Bydd yr ymgeiswyr buddugol yn cael £500. Amlinellwch sut y gallech ddefnyddio hyn i hyrwyddo effaith eich ymchwil.*<br>hyd at 500 o eiriau |

## 4.2 Cwestiynau ymgeisio ar gyfer 'Effaith a Gyflawnwyd'

**Ysgrifennwch grynodeb byr o'r effaith yr ydych chi wedi ei datblygu hyd yma yn ystod eich doethuriaeth.**

*Ystyriwch y diffiniad o effaith yng Nghanllawiau'r Gystadleuaeth Effaith*

hyd at 100 o eiriau

**Ysgrifennwch ddisgrifiad o'ch ymchwil.**

*Dylai'r disgrifiad hwn amlinellu beth yw pwnc eich ymchwil, a sut y mae eich ymchwil yn sail i'r effaith yr ydych chi wedi ei datblygu.*

hyd at 500 o eiriau

**Ysgrifennwch ddisgrifiad o'ch effaith.**

*Mae creu effaith yn daith, ac rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr ar wahanol gamau o'r daith honno. Ystyriwch eich llwybr tuag at effaith yma, a sut y gallwch fynegi effeithiau a ddatblygwyd, ac effeithiau posibl ar y cam hwn. Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau'r Gystadleuaeth Effaith. Os yw'n berthnasol, gallwch ddefnyddio hyd at bum ffynhonnell i gefnogi'r datganiad hwn, a dylid cyfeirio atynt fel rhan o'r cyfrif geiriau.*

hyd at 750 o eiriau

**Sut fyddech chi'n defnyddio'r wobr ariannol i ddatblygu effaith eich ymchwil ymhellach?**

*Bydd yr ymgeiswyr buddugol yn cael £500. Amlinellwch sut y gallech ddefnyddio hwn fel cyllid dilynol.*

hyd at 500 o eiriau